



Y Mil Diwrnod Cyntaf

Cyflwyniad



Mae Cusick and Michael (2013) yn trafod yr hanfodion iechyd optimwm, datblygiad niwrolegol a thwf ar draws oes yn cael eu gosod yn ystod y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf o fywyd, mae hyn yn cael ei fesur i fod y cyfnod rhwng cenhedlu ac ail ben-blwydd un.

Er hynny, mae Cusick and Michael (2013) yn datgan mewn gormod o wledydd datblygol, bod tlodi a y cyflwr cysylltiedig o gamfaethiad yn tanseilio y cyfnod hwn o dwf, gan achosi marwolaeth gynharach a celfyd difrifol, gan gynnwys salwch yn ogystal â cholled niweidiol enfawr o botensial mewn datblygiad niwrolegol.



Fel poblogaeth, mae gennym hanes hir o 'camfaethiad' sef diffyg maeth sylfaenol sylweddol, rhan hanfodol am fywyd plentyn, y dylai pob plentyn fod â hawl iddo. Cusick and Michael (2013).

Mae pob teulu yn haeddu cefnogaeth i sicrhau bod eu babi yn datblygu i fod yn oedolyn cryf yn gorfforol ac yn emosiynol. HM Government (2021)



Er bod camfaethiad dal i fod yn broblem ddifrifol yn y byd modern, mae gordewdra a maeth peryglus, fel dietau anghydbwysedd neu ddietau sydd yn cynnwys tocsinau posib, wedi dod yn faterion sydd yn deillio o 'orfaethiad'. Gellir diffinio y ddau gyflwr fel "camfaethiad" yn ystyr gwreiddiol y term maethiad gwael, felly mae y ddau wedi eu cysylltu â phosibilrwydd o leihau cyfradd twf a datblygiad yr ymennydd. Mae o leiaf 200 miliwn o blant sydd yn byw mewn cenhedloedd datblygol yn methu cyflawni eu potensial llawn o ddatblygiad a thwff. Mae effeithiau camfaethiad clefydau heintus, bygythiadau amgylcheddol, a cham-drin domestig a chymdeithasol i gyd yn dylanwadu ar golli eu potensial datblygiad a thwff.

Mewn cyferbyniad â nifer o ffactorau eraill sydd yn ddigynnewid neu yn hynod heriol i newid, mae diet yn un gall ymarferwyr helpu i gefnogi a hyrwyddo. Gydag ymyriadau dietegol effeithiol yn cael eu trafod trwy gydol y cyfnod amenedigol a blyneddod cyntaf bywyd, gellir atal effeithiau hirdymor. Mae camau allweddol neu fregus datblygiad yr ymennydd sydd yn agored i ddiffygion maeth penodol yn cael eu cydnabod yn ystod y cyfnod hwn. Cusick and Michael (2013).





Gofal Eithriadol



Cariad proffesiynol ydy pan mae ymarferwr yn darparu gofal, consyrn, magwraeth a chefnogaeth pur i bob plentyn. Mae Powell, (2010) yn awgrymu enghreifftiau o rinweddau ymarferwr yw:

- Amyneddgar a deallus
- Annog, clodi a gwobrwyo.
- Gwranddo a rhoi amser i y plant.

Gall dangos y diddordeb a y consyrn hwn wneud i blentyn deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi.

- Mae bod yn ymarferydd cynnes, empathetig, agos a sensitif i y plant yn helpu nhw i deimlo gallant ymddiried yn eu hymarferydd a galluogi y plentyn i ffurfio cysylltiadau a pherthnasoedd agos.

Mae Prifysgol Sheffield (2015) yn credu nad oes set o sgiliau penodol i fesur 'cariad proffesiynol', ond dangoswyd ei bod yn cefnogi datblygiad a thwf plant. Cariad proffesiynol yw y gallu i ddarllen beth sydd angen ar blentyn i helpu ac i gefnogi nhw i deimlo fod nhw yn cael ei werthfawrogi, ei charu a chysuro.



Mae Davis (2022) yn datgan os mae plentyn yn cwmpo, cariad proffesiynol yw cydnabod bod angen cwtsh arnynt a rhywun sychu ei ddagrau; os mae plentyn wedi blino neu yn cael trafferth cwmpo i gysgu, gallai ymarferydd ddal a siglo y plentyn; os yw plentyn yn gweld eisiau ei rieni, bydd ymarferydd yn cydnabod bod cwpwl o eiriau cynnes, caredig a chwtsh yn gallu rhoi teimlad o gysur a sicrwydd iddynt.



Mae pob plentyn yn wahanol, felly gall cariad proffesiynol amrywio i bob plentyn. Efallai na fydd rhai plant bob amser yn dewis rhyngweithio ag eraill, efallai bydd plant eraill yn mynd i oedolion fel teimlad o sicrwydd, tra gall rhai plant fod yn fwy hyderus. Wrth ystyried unigrywiaeth pob plentyn, mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn darparu gofal unigol ac eithriadol trwy roi cariad proffesiynol i y plant gan helpu nhw i ymddiried yn eu hymarferydd a ffurfio a chynnal perthynas cryf â nhw. Davis (2022)



Amgylcheddau sydd yn galluogi



Awgrymir Curriculum for non maintained settings (2021) bod gan ymarferwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod amgylcheddau galluogi yn cael eu darparu i gefnogi twf a datblygiad gorau posibl ar gyfer babanod.

Dylai profiadau fod yn ystyrlon i y plant a chaniatáu iddynt fod yn ymarferol, bydd hyn yn gwneud eu profiad yn fwy cofiadwy oherwydd cynwysoldeb y gweithgaredd.

Curriculum for non maintained settings (2021) yn datgan dylai amgylcheddau annog plant i fod yn annibynnol mewn amgylcheddau heriol sydd yn cynnig elfen o risg, cyfle ac arbrofi. Dylai ymarferwyr darparu cyfleoedd gall plant ymgolli yn llawn ynddynt a dysgu wrth dathlu eu llwyddiant a hefyd datblygu eu sgiliau datrys problemau.









Gall ymarferwyr ddarparu gweithgareddau amlsynhwyrdd yn eu hamgylcheddau i alluogi plant i archwilio ac ymateb i brofiadau newydd a chyffrous. Gall ymarferwyr ddarparu gofal eithriadol trwy gefnogi y plant i werthfawrogi creadigrwydd eraill a chael eu hysbrydoli ganddo, a chefnogi plant i ddefnyddio eu dychmyg ac i fynegi eu hunain mewn ffyrdd creadigol.

Mae yna lawer o ddeunyddiau y gall ymarferwyr eu defnyddio a darparu i greu amgylcheddau a gweithgareddau galluogi ar gyfer plant sydd yn cefnogi arbrofi, archwilio a chreadigedd yn y mil diwrnod cyntaf o ddatblygiad.

Mae yr awyr agored yn amgylchedd bras, lle mae plant yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu synhwyrddau i brofi eu hamgylchedd, oherwydd hyn gall yr awyr agored wneud eu profiad yn fwy cofiadwy. Mae basgedi trysor yn darparu gweithgaredd galluogi dychmygus, synhwyrdd, arbrofol a chreadigol i fabanod. Goldschmied and Jackson (2004)

Heriau Presennol




Yn aml mae rhaid i ymarferwyr oresgyn gwahanol heriau wrth ofalu am blant. Dwy her y gall ymarferwyr eu hwynebu yw:

- Yr effaith mae Pandemig Covid 19 wedi cael ar blant.
- Amserlenni dyddiol caeth.

Mae heriau yma effeithio ar yr amser sydd gan ymarferwyr i dreulio amser ansawdd gyda phlant ifanc, a gall fod o fudd i dwf a datblygiad yn ystod y mil diwrnod cyntaf.

Covid



Mae Llywodraeth EM (2021) yn awgrymu bod y pandemig wedi rhoi lles meddyliol a chorfforol llawer o wledydd o dan bwysau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae 'Lockdown' wedi effeithio plant yn sylweddol. Mae wedi bod yn gyfnod heriol i deuluoedd newydd oherwydd nad ydynt wedi gallu cael cymorth neu wasanaethau personol yn rheolaidd, fel arfer.

Mae llywodraeth y DU yn pwysleisio bod eu nodau ar gyfer gwasanaethau blynyddoedd cynnar cynhwysfawr wastad wedi bod yn uchelgeisiol. Amlygodd y Pandemig bwysigrwydd bod angen gweithredu ar unwaith i gefnogi teuluoedd.

Mae y Pandemig wedi cael effaith negyddol ar deuluoedd gan eu hatal ac amddifadu rhag mynd i grwpiau rhyngweithiol fel grwpiau rhieni a babanod, a all gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad.



DN Dance Babies (2021) yn trafod yr her ynghyd â gwaith a bywyd bob dydd, i rieni ddod o hyd i ddigon o amser i dreulio gyda ei phlentyn ifanc. Mae cylchoedd rhieni a babanod yn ffordd effeithiol a hwyl o sicrhau gall rhieni a babanod dreulio amser ansawdd gyda ei gilydd.

Trwy chwarae ac archwilio, mae babanod yn datblygu eu sgiliau echddygol mewn ffyrdd cyffrous a diddorol. Propriodderbyniaeth; nid yw wybodaeth babanod am ymlyniad eu cyrff i ei breichiau, ac ymwybyddiaeth ofodol wedi datblygu yn llawn eto. Mae gweithgareddau mewn cylchoedd rhieni a babanod yn helpu gyda dehurwydd, cydbwysedd, a chydysymud corfforol, sydd i gyd yn fuddiol i helpu babanod i ddatblygu eu sgiliau echddygol.





Carreg filltir arwyddocaol nesaf i fabanod fydd dechrau meithrinfa. Trwy fynychu cylchoedd rhieni a babanod, mae babanod yn datblygu eu hyder i ryngweithio o fewn eu lleoliad, gan fyddant wedi dod i gysylltiad â sefyllfaoedd cymdeithasol newydd yn ystod cylchoedd, sydd yn golygu byddant yn gyfarwydd ag rhyngweithio â phlant ac oedolion eraill, felly byddant yn fwy tebygol o setlo yn feithrinfa, ymddiried yn eu hoedolyn allweddol newydd a rhyngweithio â phlant eraill, gan greu cyfeillgarwch. Mae cylchoedd rhieni a babanod yn ffordd effeithiol o ddechrau paratoi babanod ar gyfer eu camau cyntaf i amgylcheddau dysgu strwythuredig. Gall gefnogi plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol sylfaenol, sydd yn angenrheidiol ar gyfer creu perthnasoedd cryf yn ysgol.

Mae plant yn profi ymdeimlad cryf o gyflawniad pan fyddant yn meistrolï gweithgaredd newydd, fel tric, dal, neu naid. Byddant yn cael eu hysgogi i ddysgu mwy gan y byddant yn teimlo yn fodlon ac yn fedrus. Gall cylchoedd rhieni a babanod ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a thwf parhaus, a fydd yn annog ymdeimlad o annibyniaeth a grymuso ac yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o eu sgiliau.



Bydd plant yn gwneud ffrindiau, ac yn dysgu sut i gyfathrebu ag eraill. Er hynny, efallai bydd yn anodd cyfathrebu ar lafar yn gyntaf, gall gwahanol weithgareddau, er enghraifft symudiadau dawns, galluogi y babanod i gyfathrebu heb eiriau, a gall wella eu sgiliau cymdeithasol. Mae ieuchyd meddwl

a lles plant yn cael eu gwella trwy ddod i gysylltiad amlach â phlant eraill. Yn ogystal, mae yn helpu plant i nodi ymddygiad cymdeithasol addas. DN Dance Babies (2021)

Mae y Pandemig wedi achosi teuluoedd golli cyfleoedd fel rhain ar gyfer datblygiad a thwf eu plant. Eu hamddifadu o y cyfle i ddatblygu sgiliau er enghraifft cyfathrebu, sgil bwysig a fydd yn helpu plant gyda sgiliau lleferydd ac iaith a hyder i gymryd rhan mewn sgwrs gyda phlant eraill ac oedolion, drwy gydol feithrinfa.



Effaith negyddol arall ar ddatblygiad lleferydd ac iaith achos y pandemig yw mygydau. Trwy ryngweithio dyddiol ag ymarferwyr, mae babanod yn dysgu adnabod cyfathrebu. Yn ôl ymchwil, mae datblygiad galluoedd cyfathrebu babanod yn cael ei ddylanwadu yn sylweddol gan yr ymadroddion maent yn gweld tra bod eraill yn siarad. Awgrymir bod babanod sydd yn darllen gwefusau yn aml yn

datblygu sgiliau iaith gryfach wrth iddynt ddatblygu. Mae hyn yn awgrymu bod mygydau yn debygol o gael effaith negyddol ar ddatblygiad lleferydd ac iaith babanod. Lewkowicz (2021)

Mae Tyrie, Knight and Borrás (2021) hefyd yn dadlau bod y Pandemig wedi cael effaith negyddol ar blant. Mae ymchwil yn awgrymu bod plant gyda rhieni sydd yn dioddef o COVID hirdymor, wedi cael effaith negyddol ar ieched yn ogystal ag ar eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Mae plant sydd wedi dioddef profedigaeth oherwydd COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol yn ogystal â datblygiad lleferydd ac iaith. Mae plant o deuluoedd sydd yn byw mewn tlodi neu sydd ag cyflog isel wedi cael effaith negyddol ar ddatblygiad eu lleferydd ac iaith, eu datblygiad gwybyddol a chorfforol yn ogystal â datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu er mwyn goresgyn y tristwch ac ansicrwydd mae plant a theuluoedd wedi wynebu wrth y pandemig, er mwyn i blant allu symud ymlaen yn eu twf a datblygiad, gall ymarferwyr gefnogi eu llesiant trwy greu mannau tawelu sydd y rhoi teimlad i blant o ymberthyn ac annog amgylcheddau chwarae cefnogol. Tyrie, Knight and Borrás (2021)



1 - <https://www.pinterest.co.uk/pin/7740630585027012/>



2 - <https://www.pinterest.co.uk/nicklinlcmrsk/provocations/>

Amserlenni dyddiol caeth



Dywed Winckler (2018) yn ystod diwrnod, rhaid i ymarferwyr gadw drefn i gyflawni dyletswyddau hanfodol.

Mae ffynhonnell gan yr ECLKC (2022) yn nodi bod plant yn elwa ar drefn ddyddiol cyson a cyfarwydd, maent yn caniatáu iddynt deimlo eu bod yn rheoli eu hamgylchedd eu hunain ac yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Mae gan y plant ymdeimlad o gysondeb a sicrwydd oherwydd bod y drefn yn cael ei gosod gam wrth gam trwy gydol eu diwrnod.

Mae Winckler (2018) yn awgrymu tra gall trefn fod yn fuddiol i blant ac ymarferwyr, maent hefyd yn dod â heriau mae rhaid i ymarferwyr addasu iddynt a goresgyn.

Mae ymarferwyr yn wynebu llawer o ymyriadau yn ystod diwrnod fel y byddai rhiant yn ei ddisgrifio, ond mewn lleoliad gyda llawer o blant, daw llawer o anghenion. Er enghraifft, efallai bydd angen newid cewyn plentyn (anghenion brys), ond efallai mae yn amser cinio, a gall newid cewyn achosi oediad wrth baratoi. Efallai bydd angen i ymarferwr arall feddwl am wrthdwyddiad i gadw plant eraill rhag diflasu a cholli diddordeb yn ystod yr oedi, wrth gadw at y safonau iechyd a diogelwch oherwydd efallai bod y plant wedi golchi eu dwylo i baratoi ar gyfer amser cinio. Gall ymarferwr ddewis i ganu cân ryngweithiol gyda y plant i dynnu eu sylw oddi wrth yr oedi amser cinio. Byddai hyn wedi llwyddo i gadw y plant eraill yn barod ar gyfer cinio, tra bod yr ymarferydd wedi bod yn newid cewyn plentyn, a pharhau i eu hawr ginio.

Awgrymir Special Learning (dim dyddiad) pan na all ymarferwyr ddarparu mathau hyn o wrthdwyddiadau, gall plant golli diddordeb a dechrau diflasu, gall hyn arwain i ymatebion negyddol, gall cynnwys gweiddi, sgrechian, strancio neu grio. Enghraifft arall o ble mae ymarferwyr yn gallu darparu gofal eithriadol trwy ddangos cariad proffesiynol tuag at y plant, i helpu i gysuro, eu cefnogi a rhoi sicrwydd iddynt.



Gweithgareddau



Dywed Procure Solutions (2021) fod gweithgareddau synhwyrdd yn helpu babanod i ysgogi eu synhwyrdd. Pan fyddent yn chwarae, creu, ac arbrofi, bydd gweithgareddau synhwyrdd yn ysbrydoli plant a chefnogi archwilio.



3 - <https://parentingchaos.com/how-to-dye-rainbow-spaghetti-for-sensory-play/>



4 - <https://www.funwithmama.com/rainbow-spaghetti-how-to-make-colored-spaghetti/>



5 - <https://www.earlyyearsresources.co.uk/blog/2018/09/edible-sensory-play-activities/>



6 - Dwr






Mae plant yn mwynhau cymryd rhan mewn llawer math o chwarae synhwyrdd, er enghraifft gyda thwba llawn dŵr a sbyngau. Mae babanod 0-2 oed dal yn datblygu eu synnwyr o flas, felly dylai gweithgareddau synhwyrdd fod yn syml, deniadol a diogel. Mae cyfuniad o ddŵr a sbyngau yn cefnogi datblygiad babanod o ymwybyddiaeth o ei chorff, galluoedd archwilio gwrthrychau, a synnwyr cyffwrdd. Mae babanod yn mwynhau sgwpio a sbasio y dŵr, gallant ymarfer codi a gwasgu sbyngau, a mwynhau gwlychu.

Drychau



Mae ymarferwyr yn cefnogi plant i ddatblygu hunanymwybyddiaeth a dod yn fwy ymwybodol o eu hamgylchedd trwy ddarparu gweithgareddau galluogi. Gallai ymarferwyr greu gweithgareddau gan ddefnyddio drych ac ymgysylltu ag eu hadlewyrchiad i weld eu hwyneb. Mae ymarferwyr yn cefnogi plant trwy helpu nhw i ddeall nhw sydd yn ymddangos yn y drych. Mae gweithgareddau sydd yn defnyddio drychau yn effeithiol gyda Babanod, maent yn galluogi iddynt ddysgu am fod yn fwy ymwybodol ohonynt, eu mynegiant, adlewyrchiadau ac eu hamgylchoedd. Gall plant ddatblygu eu sgiliau gweledol trwy ddefnyddio gemau drych. Gall ymarferwyr gefnogi eu dysgu trwy ofyn iddynt gymryd rhan mewn gêm, gofyn iddynt bwyntio at eu llygaid, clustiau a thrwyn ac ymarfer gwneud mynegiant gwirion.



Gall ymarferwyr ddangos lluniau o wynebau gwenu i blant. Er mwyn annog plant i sylwi ar y gwen, gall ymarferwyr bwyntio at yr wynebau yn y lluniau.

Mae gwenu yn ymateb cariadus a gall roi ymdeimlad o ddiogelwch yn y byd i blentyn cyn iddo fod yn ddigon hen i ddeall geiriau. Mae ymdeimlad y plant o ddiogelwch a pherthyn yn cynyddu wrth i eu galluoedd gweledol ddatblygu, er enghraifft pan fyddant yn dysgu adnabod gwenau o fewn eu hamgylchoedd.

Canu Caneuon



Hyd yn oed o oedran cynnar, gall canu caneuon gyda phlant helpu i ddatblygu sgiliau i ddysgu gwrando.


Mae yna fanteision gwybyddol a synhwyrdd amrywiol i ganu gyda babanod. Dysgant wrando trwy glywed rhywun yn canu ac yna ceisio dynwared. Gallant hefyd ddatblygu synnwyr o glyw, sgiliau iaith a syniadau fel tŷn a rhythm.

Cynhwysiadol





Cefnogaeth a Pherthnasoedd



Mae y Cyngor Gwyddonol Cenedlaethol ar y Plentyn sydd yn Datblygu (2009) Yn honni bod perthnasoedd cryf a chadarnhaol yn hanfodol er mwyn galluogi plant i ymgysylltu ag eu hamgylchedd ac i dyfu a datblygu.

Yn ôl ymchwil gan y Cyngor Gwyddonol Cenedlaethol ar ddatblygiad plentyn (2009) mae perthnasoedd yn cael effaith ar bron bob agwedd ar ddatblygiad plant, gan gynnwys sgiliau cymdeithasol, dealltwriaeth o emosiynau, moesau a dysgu. Mae hyn yn adlewyrchu pam mae hyrwyddir sefydlu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol yn sylweddol yn flynyddoedd cynnar. Gall ymarferwyr rymuso plant i helpu hybu eu hyder a chreadigrwydd, i gredu ynddynt ac eu gallu i lwyddo. Credant gall cael perthnasoedd iach yn ystod camau cynnar datblygiad plentyn helpu nhw i ddeall mwy amdanynt ac eu gwerth. Bydd y perthnasoedd buddiol hyn yn eu dilyn trwy gydol eu bywyd fel oedolyn.

Mae Llywodraeth EM (2021) yn nodi bydd babanod sydd wedi ffurfio cysylltiad cadarn yn fwy tebygol o dyfu i fod yn bobl wydn sydd yn creu perthynasai cryf yn gartref ac yn waith, a fydd yn gallu meithrin eu plant eu hunain yn well.

Oedolion Galluogol



Llywodraeth Cymru (2021) Yn disgrifio oedolion galluogol fel addysgwyr, cyfathrebwyr, gweithwyr proffesiynol a gofawyr.

Mae disgwyliad ar gyfer dysgu yn ei osod trwy ymarferwyr galluogol sydd yn darparu amgylchedd anogol, bras o ran cyfathrebu, ac yn galluogi plant i ddechrau mynegi a rheoli eu hemosiynau ac ymddygiad mewn ffordd gadarnhaol.

Dylai ymarferwyr ddarparu gofal yn gyson ac arddangos fel unigolyn caredig a thosturiol. Er mwyn paratoi plant sut i reoli trosglwyddiadau mewn arferion bob dydd, mae ymarferwyr yn cefnogi plant i ddysgu sut i addasu i bethau anhysbys a newidiadau.

Mae ymarferwyr yn talu sylw manwl ac yn ymateb yn dosturiol i y plant, sydd yn galluogi nhw i wella eu dealltwriaeth o anghenion datblygiadol y plant.

Rhaid i ymarferwyr benderfynu a ddylid rhyngweithio â phlant a sut i gefnogi yn eu dysgu. Dylent gefnogi ac annog plant mewn gweithgareddau dysgu hwyl, heriol ac annog nhw i ymgysylltu ag eraill mewn heriau datrys problemau a helpu i ffynnu yn eu dysgu a datblygiad. Mae ymarferydd galluogol yn annog ac yn cefnogi plant i ddechrau deall gall pobl fod â syniadau, meddyliau a theimladau gwahanol i rai nhw.

Mae ymarferwyr galluogol yn ymatebol ac yn gwrandao ar y plentyn wrth ystyried ei ddiddordebau a phethau maent ddim yn hoffi, yn parchu eu barn, gan ganiatáu iddynt godi eu llais a dangos eu menter.

Trwy groesawu profiadau mae ymarferwyr yn creu a chynnal perthynasai cryf rhwng y plant, eu teuluoedd a chymuned, gan wella ymdeimlad y plentyn o ymberthyn. Mae ymarferwyr galluogol yn parchu a gwerthfawrogi cynwysoldeb ynghyd â hunaniaeth gymdeithasol y plant.



Canlyniadau

Mae Siraj-Blatchford, et al. (2002) yn awgrymu bod plant na fynychodd feithrinfa fel babi yn llai tebygol o ddewis astudio Lefel Ac na rhai a wnaeth.

Roedd plant nad oeddent wedi profi bywyd cartref cynnar da yn llai tebygol o astudio Lefel A, na rhai a wnaeth.

Credir Siraj-Blatchford et al. (2002) bydd sefydlu perthnasoedd rhwng teuluoedd a lleoliadau yn gwella canlyniadau i blant.

Cwricwlwm Newydd



Disgrifia Wiseman (2017) gwricwlwm newydd fel dull cynhwysol a chyfannol o ddysgu. Mae meysydd datblygiad a dysgu cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol i gyd yn cael eu hystyried mewn cwricwlwm newydd.

Mae cwricwlwm datblygol yn newid dros amser mewn ymateb i anghenion a diddordebau newidiol plant, diddordebau a phryderon rhieni, a blaenoriaethau athrawon. Mae pob un o gydrannau hanfodol hyn yn dylanwadu ar sut bydd dysgu presennol a dyfodol yn symyd ymlaen.


Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu mwyaf effeithiol pan fyddant yn galluogi plant i arwain gweithgareddau gyda diddordebau a chwilfrydedd eu hunain, gan ganiatáu iddynt gymryd rhan weithredol mewn dysgu gyda nhw ac amdanynt. (Stacey, 2009)





Dulliau Rhyngwladol





7 - <https://sightlines-initiative.com/resources-shop/recordings-online/te-whariki-a-woven-mat-which-empowers-the-child>

Dywed Te-Whariki y gall plant sydd yn cael addysg gynnar o safon ddechrau sylweddoli eu potensial a sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer eu dysgu a datblygiad y dyfodol mewn llwyddiant personol.

Mae'r safonau dysgu cynnar yn Seland Newydd ymhlith yr uchaf yn y byd, ac mae bron pob un o'r plant yn cymryd rhan mewn ac yn elwa o ystod eang o ryngweithio a phrofiadau yn eu lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae Te Whariki yn unigryw yn ei fframio deuddiwylliannol, yn crynhoi'r amcan bod pob plentyn yn Seland Newydd yn tyfu i fyny yn ddysgwyr galluog a hyderus sy'n gryf o ran iaith, hunaniaeth a diwylliant. Anogir pob plentyn i ddysgu yn ei ffyrdd unigol o dan arweiniad ymarferwyr sy'n eu hannog a'u cefnogi ac sy'n ystyried eu lles.

Mae Ysgol Goedwig yn annog plant i ddysgu yn naturiol ac mewn ffordd sydd yn addas ar eu cyfer, gan ganiatáu i blant arwain eu dysgu a datblygiad, gan unigoli gofal ar gyfer y plant.

Credir bod plant yn cael amrediad o fanteision o ddysgu a chwarae yn yr awyr agored. Maen nhw yn disgrifio yr awyr agored fel amgylchedd naturiol â chyfleoedd dysgu ac adnoddau anghyfyngedig nag y gellir byth eu cael mewn un ystafell ddosbarth.



Mae Cwricwlwm Cymreig yn tynnu ar wybodaeth o feithrinfeydd yn ogystal â barn arbenigwyr mewn datblygiad ac addysg plentynod cynnar.

Ei nod yw meithrin ymdeimlad o falchder a ymherthyn mewn plant, tra anrhydeddu diwylliant bras Gymru fodern a datblygu ymdeimlad y plant o gynefin. Cafodd e i greu i gynorthwyo dysgu plant, gan sicrhau eu bod yn dechrau gyda chychwyn gorau posibl.

Credir Cymru bod darparu addysg gynnar o ansawdd uchel i blant yn hanfodol ar gyfer eu datblygiad. Y blynyddoedd cynnar ydy pan fydd plant yn ennill y profiadau, sgiliau, wybodaeth a galluoedd sydd yn angenrheidiol ar gyfer oes o ddysgu.

Nod y cwricwlwm yw meithrin cariad at ddysgu mewn plant ac os fydd yn cael ei hannog a chefnogi, fydd yn para am oes a chynnig y sylfaen gryf sydd angen ar bob plentyn i lwyddo.





Wrth ymchwilio tri chwricwlwm gwahanol, mae yn amlwg bod gwahaniaethau ar draws pob cwricwlwm, ond mae ffocws ar les y plentyn yn debygrwydd allweddol. O ran hawliau plant, mae deddfwriaeth yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i gael bywyd iach, hapus a boddhaus wedi ei chyfoethogi â dysgu. Yn ôl ymchwil, mae hapusrwydd a lles yn annog dysgu.



David Lewowicz (2021) Masks Can Be Detrimental to Babies' Speech and Language. Available at <https://www.scientificamerican.com/article/masks-can-be-detrimental-to-babies-speech-and-language-development1/?amp=true> (Accessed: 19 January 2023)

Davis, E. (2022) Why children need professional love. Available at: <https://www.family.co/blog/professional-love-early-years#:~:text=Caring%20practices%20in%20Early%20Years,very%20different%20from%20parental%20love> (Accessed: 14 January 2023).

DN Dance Babies (2021) 5 Benefits of Parent And Baby Classes. Available at: <https://www.dndancebabies.co.uk/5-benefits-of-parent-and-baby-classes/> (Accessed: 15 January 2023)

Goldschmied, E. and Jackson, S. (2004) People under three : young children in day care. 2nd Ed. London ;: Routledge. doi:10.4324/9780203511381.

Green Glade Forest School (no date) Why Forest School. Available at: <https://www.greengladeforestschool.com/pages/why-forest-school#:~:text=Forest%20Schools%20have%20existed%20for,open%2C%20outdoor%2C%20natural%20environments>. (Accessed: 17 January 2023)

Head Start. Early Childhood Learning and Knowledge Centre (2022) The Importance of Schedules and Routines. Available at: <https://eclkc.ohs.acf.hhs.gov/about-us/article/importance-schedules-routines> (Accessed: 16 January 2023)

HM Government. (2021) The Best Start for Life: A vision for the 1001 critical days. Available at: [The best start for life a vision for the 1001 critical days.pdf](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/978451/the-best-start-for-life-a-vision-for-the-1001-critical-days.pdf) (publishing.service.gov.uk) (Accessed: 15 January 23).

Joe Wiseman (2017) An Emergent Curriculum- What is it and Why is it important. Available at: <https://c5children.org/emergent-curriculum-important/> (Accessed: 17 January 2023)

Ministry of Education (2007) Te Whariki Early Childhood Curriculum. Available at: <https://www.education.govt.nz/assets/Documents/Early-Childhood/ELS-Te-Whariki-Early-Childhood-Curriculum-ENG-Web.pdf> (Accessed: 17 January 2023)

Mystie Winckler (2018) The Pros and Cons of Schedules, Routines, and Winging It. Available at: <https://simplyconvivial.com/2018/winging-it/> (Accessed: 16 January 2023)

Powell, S. (2010) HIDE AND SEEK: VALUES IN EARLY CHILDHOOD EDUCATION AND CARE. *British Journal of Educational Studies*. Vol. 58, No. 2. Available at: [HIDE AND SEEK: VALUES IN EARLY CHILDHOOD EDUCATION AND CARE \(uwtsd.ac.uk\)](https://www.uwtsd.ac.uk/journal/article/view/100)

Procare Solutions (2020) List of Sensory Activities for Infants and Toddlers. Available at: <https://www.procaresoftware.com/resources/list-of-sensory-activities-for-infants-toddlers/> (Accessed: 16 January 2023)

Sarah Cusick, PhD and Michael K. Georgieff, MD. (2013) *The First 1,000 days of life – the brains window of opportunity*. Available at: <https://www.unicef-irc.org/article/958-the-first-1000-days-of-life-the-brains-window-of-opportunity.html> (Accessed: 14 January 2023)

Siraj-Blatchford, I. et al. (2002), Researching effective pedagogy in the early years. (Research Report No. 356), Department for Education, London

Special Learning (no date) Negative Responses To A Disruption Of Routine. Available at: <https://special-learning.com/article/negative-response-to-a-disruption-of-routine/> (Accessed: 16 January 2023)

Stacey, S. (2009) *Emergent Curriculum in Early Years Settings*. MN. Redleaf Press.

Tyrie, J. Knight, C. Borrás, M (2021) Cardiff: Welsh Government: Delphi Study to Understand Options Available that will help to Identify, Address, or Mitigate the impact of COVID-19 on Children Under Age 5. Available at: <https://gov.wales/delphi-study-impact-covid-19-children-under-age-5>

University of Sheffield (2015). Professional Love in Early Years Settings: A Report of the Summary of Findings.

Welsh Government (2021) Consultation Document: Enabling Pathways. Available at: [enabling-pathways-consultation-document 0.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales/enabling-pathways-consultation-document-0.pdf) (Accessed: 16 January 2023)

Welsh Government (2021) Consultation Document: A curriculum for funded non-maintained nursery settings. Available at: [curriculum-funded-non-maintained-settings-consultation-doc.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales/curriculum-funded-non-maintained-settings-consultation-doc.pdf) (Accessed: 16 January 2023)